# Priddoedd

## Awgrymiadau PROSOIL

Mae sicrhau bod y pridd yn iawn yn allweddol i wneud elw wrth ffermio da byw ar laswelltir.

### Asesu



Mae rheoli'r pridd yn dda yn dibynnu ar asesu'r pridd ar gyfer:


- Gwead – dylanwadu ar faint o ddŵr a maeth y gall y pridd ei ddal a phenderfyniadau rheoli
- Strwythur –er mwyn adnabod cywasgu – gwirio'r lliwiau a dyfnder y gwreiddiau
- Iechyd biolegol – mae mwydod yn hawdd i'w gweld a'u cyfrif
- Dadansoddiad cemegol - pH, P, K, Mg sylfaenol


> Mae Ffermydd Datblygiad Masnachol PROSOIL wedi gwella trwy awyru pridd a slyri, defnydd o gnydau porthiant, gwasgaru dom a gweddillion treuliad anerobig, a gweithredu ar ganlyniadau dadansoddi pridd, dom, slyri a gweddillion treuliad anerobig.

### Cloddio : Trin : Mesur : Gweithredu







#### CLODDIO

- Math o bridd
- Strwythur y pridd
- Bioleg y pridd

#### TRIN

- Strwythur y pridd
- Dyfnder y gwreiddiau
- Math o bridd

#### MESUR

- Dadansoddi pridd, slyri, dom, gweddillion treuliad anerobig a mwynau porfa
- Bioleg
- Tymheredd y pridd
- Cynnyrch

#### GWEITHREDU

- Cynllunio rheolaeth y maethynnau
- Tyfu planhigion â gwreiddiau dwfn fel sicori a meillion coch
- Cynnwys meillion gwyn yn y gwyndwn